Cyngor Cymuned Ganllwyd

Rhagfyr 13eg 2023

**Presennol**

Cyng D.Morris, G.Hughes,S.Jones, C.Dixon, C.Edwards a S.Roberts a D.Griffiths.

Ymddiheuriad Cyng G.Jones a G.Hughes.

**Cofnodion Tachwedd 2023.**

Cynnigodd Cyng D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng C.Dixon.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim

**Materion yn codi.**

Dim.

**Cynghorwr Sir.**

***Canolfan ymwelwyr Coed y Brenin,Ganllwyd.***

Trafododd y cyngor cymuned y cyhoeddiad gan CNC eu bod yn adolygu'r hyfywedd ac yn ystyried yr opsiynau gan gynnwys y posibilrwydd o gau canolfan ymwelwyr Coed y Brenin.

Amlinellodd y Cynghorydd Griffiths amserlen y cyfarfodydd arfaethedig gyda Mr Martin Cox CNC sy'n gyfranogwr blaenllaw o'r adolygiad sydd ar ddod. Gofynnodd aelodau'r cyngor os y byddai'r cyngor cymuned yn hoffi ymgynghori ynglŷn â'r adolygiad hwn. Bydd y cyngor cymuned hefyd yn cysylltu â Mr Cox yn uniongyrchol gyda'u sylwadau a'u pryderon. Y Cynghorydd Griffiths i ddiweddaru'r cyngor cymuned yn ystod ei gyfarfod nesaf.

**BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR.**

Yn ystod cyfarfod gyda chadeirydd dros dro y bwrdd iechyd fe wnaeth y cynghorwyr Mr Dyfed Edwards fynegi pryderon am ddiffyg G. P's yn ardal Meirionydd. Dywedodd Mr Edwards fod y Bwrdd Iechyd yn cael trafferthion wrth ddenu meddygon i'r ardal. O ganlyniad i'r anawsterau hyn byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi nyrsys safon uchel i gynorthwyo'r meddygon yn ardal Meirionnydd.

**Biniau Halen.**

Mae pob bin halen yr ardal yn llawn.

**Cynllun partneriaeth Eryri 2020.**

Mae aelodau y cyngor wedi derbyn gwybodaeth i ymwneu ar cynllun uchod, mae yna optiwn i gwblhau questionnaire ar y pwnc.

**Materion Ariannol.**

Cais praesept blwyddyn ariannol 2024/25

**Cais praesept 2024-25.**

| | |
|---|---|
| Yn y Banc 01/12/2023 | £3598.85 |
| Llai sieciau heb glirio | Dim |
| Cyfanswm | £3598.85 |

Incwm arfaethedig am y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Precept | |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £577 |
| Ad daliad TAW | £275 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm (heb preasept) | £4450.85 |

Amcangyfrif o wariant 2024/25

| | |
|---|---|
| Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £1080 |
| Llogi'r Neuadd | £225 |
| Cyflog Clerc | £1200 |
| Ysiwriant | £462 |
| Rhoddion | £600 |
| Toiled Ganllwyd | £250 |
| Archwilydd/cyfrifydd | £460 |
| Un Llais Cymru | £38 |
| Mr Evans (cynnal a chadw) | £50 |
| | |
| (Eitemau amrywiol) | £500 |

Cyfanswm £4665

Gweddill (heb praesept) - £215

Wedi trafodaeth ac astydiaeth o'r ffigyrau uchod fydd y cyngor cymuned yn gwneud cais am £3250 am y flwyddyn ariannol nesaf.

**Cyllid misol.**

Cyson Banc: Tachwedd 2023

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £3703.85

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.00 |

| | |
|---|---|
| Yn y Banc diwedd mis | £3598.85 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Terfyn gwariant S137 am y flwyddyn 2024/25.**

Mae’r cyngor wedi derbyn llythyr gan Llywodraeth Cymru yn cadarnhau fod ganddynt hawl gwario £10.81 i bob etholwr ar faterion sydd yn barn y cyngor cymuned yn dod a budd uniongyrchol i’r ardal.

**Rhodd.**

Derbynnwyd rhodd o £250 gan Matt Ward.

**Grantiau ariannol.**

Wedi debyn sawl e-bost yn cynnig grantiau arian gan sawl asiantaeth er mwyn cychwyn a datblygu prosiectau cymynedol-mae’r cyngor am edrych i fewn i prosiectau lleol a fydd yn addas.

**Llythyrau & E-bost.**

Cais cynllunio NP5/60/159D mast ffon yn ardal Moel Dolfrwynog/Friog,Ganllwyd.

Nid oedd y cyngor yn gwrthwynebu y cais yma.

**Porth allanol Tim tacluso Cyngor Gwynedd**- Bydd y cyngor yn derbyn link yn y flwyddyn Newydd sydd yn caniatau aelodau'r cyngor canfod gwybodaeth ynglyn gwaith y tim taclsuo.

Bydd y clerc yn dosbarthu'r link ar ol i dderbyn.

**Unrhyw fusnes arall.**

Dim.